# WILLIAMS, STEPHEN WILLIAM (1837 - 1899), peiriannydd, pensaer, a hynafiaethydd

**Enw:** Stephen William Williams
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1899
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** peiriannydd, pensaer, a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 7 Mehefin 1837 yn Mellington Hall, Churchstoke, Sir Drefaldwyn. Prentisiwyd ef gyda pheiriannydd yn Staffordshire; wedyn bu'n cynorthwyo Benjamin Piercy ar y ' Cambrian Railway ' a ffyrdd haearn eraill. Yn 1862, ymsefydlodd yn Rhaeadr Gwy fel tirfesurydd a goruchwyliwr stadau, gan gychwyn hefyd fel pensaer - y gwaith a apeliai fwyaf ato; daliodd at ei waith preifat pan benodwyd ef wedyn yn ' County Surveyor.' Yr oedd cylch ei fusnes yn eang iawn; atgyweiriodd nifer mawr o hen blasau (a chodi rhai newydd) ac o adeiladau cyhoeddus, a nifer mwy fyth o hen eglwysi. Nid anniddorol fydd cofio mai ef a brisiodd stad Nantgwyllt pan brynwyd hi gan Birmingham i ddibenion gwaith dwr Cwm Elan. Ymunodd yn gynnar â'r Cambrian Archaeological Association, ond yn 1870 yr ymddangosodd y cyntaf (ar ' Castell Collen') o'r rhes hir o'i bapurau yn *Archæologia Cambrensis*; yr oedd yn F.S.A. Tyfodd yn gryn awdurdod ar hen fynachlogydd Cymru - Tal-y-llychau, Ystrad Marchell, Cwm Hir, ac yn bennaf oll Ystrad Fflur, testun ei unig lyfr, *The Cistercian Abbey of Strata Florida*, 1889. Bu farw 11 Rhagfyr 1899, yn ystod ei dymor fel siryf sir Faesyfed.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Seiliwyd yn gyfan gwbl ar yr ysgrif goffa (gyda rhestr o'i bapurau) gan D. R. Thomas, yn *Archaeologia Cambrensis*, 1900

ychwaneger mai Williams piau rhai o'r atodiadau yn arg. 1905 o *A General History of the County of Radnor* (Brycheiniog 1905) Jonathan Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 68439106

Wikidata: Q16200538

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu